



## **Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2014**

### **Diben**

Mae'n dda gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg gyflwyno'i adroddiad am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2014 i'r Comisiynydd yn unol â'r gofynion yn ei Gylch Gorchwyl.

### **Aelodaeth**

Yn ystod y flwyddyn, arhosodd aelodaeth y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn ddigyfnewid, sef:

Gordon Lishman – Cadeirydd  
Ian Summers

Kenneth Jones  
Eifion Pritchard

### **Taliadau**

Fel rhan o'u telerau a'u hamodau, cafodd yr aelodau daliadau am chwe diwrnod y flwyddyn yn ôl cyfradd ddyddiol o £350 (aelodau) a £400 (Cadeirydd).

Cafodd yr aelodau ad-daliadau hefyd am eu costau teithio a chynhaliaeth yn unol â Pholisi Teithio a Chynhaliaeth y Comisiynydd.

Cafodd yr aelodau ad-daliadau am unrhyw waith a oedd yn ychwanegol at eu cyfrifoldebau yn y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn ôl yr un gyfradd ddyddiol.

### **Cyfnod Swydd**

Daeth cyfnodau Gordon Lishman, y Cadeirydd, a Kenneth Jones yn eu swyddi i ben ar 31 Mawrth 2014. Cynigiwyd estyniad am ddwy flynedd hyd at 31 Mawrth 2016 i Kenneth Jones ac fe'i derbyniodd. Gwahoddodd y Comisiynydd Ian

Summers i fod yn Gadeirydd o 1 Ebrill 2014 ymlaen ac mae hi wrthi'n ystyried penodi aelod newydd.

## **Amllder y Cyfarfodydd**

Cyfarfu'r Pwyllgor unwaith bob chwarter ar y dyddiadau a ganlyn:

17 Ebrill 2013            pob aelod yn bresennol

16 Gorffennaf 2013    pob aelod yn bresennol

22 Hydref 2013        pob aelod yn bresennol

28 Ionawr 2014        ymddiheuriad gan Gordon Lishman, y Cadeirydd

Cynhaliwyd cyfarfod mis Hydref yng Nghanolfan Soar, Merthyr Tudful. Yn swyddfa'r Comisiynydd y cynhaliwyd pob cyfarfod arall.

## **Cylch Gorchwyl**

Yn ystod cyfarfod mis Hydref, bu'r Pwyllgor yn adolygu ei Gylch Gorchwyl, gan wneud ambell newid mân (cafodd un newid mân arall ei wneud yn y cyfarfod ym mis Ebrill 2014).

## **Materion archwilio**

A    Archwilio Mewnol

### **Strategaeth Archwilio Mewnol 2013/14**

Cymeradwyodd y Pwyllgor y cynllun ar gyfer 2013/14 ar 17 Ebrill 2013.

### **Adroddiadau**

Cynhyrchodd yr Archwilwyr Mewnol (Deloitte) yr adroddiadau a ganlyn am y flwyddyn:

- Rheoli Perfformiad – adroddiad dilynol yn sgil Arfarniad ARAD

Trafododd y Pwyllgor hyn yn fanwl a daeth i'r casgliad nad oedd angen cymryd rhagor o gamau.

- Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Nododd y Pwyllgor fod y gwaith a arweiniodd at yr adroddiad archwilio ymgynghorol hwn wedi'i wneud yn ystod cyfnod ailstrwythuro'r tîm cyfathrebu. Roedd y mwyafrif o'r argymhellion eisoes wedi'u rhoi ar waith fel rhan o'r gwaith ailstrwythuro.

- Llywodraethiant Corfforaethol a Rheoli Risg

Roedd yn dda gan y Pwyllgor fod yr adroddiad hwn wedi ennill sgôr sicrwydd sylweddol. Gwnaeth Deloitte nifer o argymhellion a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â gwaith y Pwyllgor a chafwyd cytundeb ar y rhain o ran egwyddor:

- a) mai Cadeirydd y Pwyllgor a ddylai baratoi'r Adroddiad blynyddol, gyda chymorth ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor.
- b) y dylai'r Pwyllgor ystyried adolygu perfformiad yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol bob blwyddyn.
- c) y dylai'r Pwyllgor ystyried a ddylai'r Adroddiad Blynyddol gael ei ddiwygio i gynnwys datganiad ynglŷn â Llywodraethiant Corfforaethol sy'n dweud eu bod yn gweithredu yn unol â'r cod ymarfer ar gyfer Llywodraethiant Corfforaethol da yn ogystal â bod y sefydliad yn paratoi datganiad Llywodraethiant; bod y Pwyllgor yn cwblhau hunanasesiad sy'n enwi pwyntiau gweithredu ac yn rhoi'r rheiny ar waith ac yn craffu ar y ffioedd am Archwilio Allanol er mwyn sicrhau gwerth am arian.

- Systemau Ariannol

Rhoddodd yr adroddiad hwn y sicrwydd a ganlyn:

- a) Prynu a thaliadau – Sicrwydd llawn
- b) Cyflogres – Sicrwydd sylweddol
- c) Rheolaeth dros y Gyllideb – Sicrwydd llawn

Gwnaeth Deloitte 5 o argymhellion â blaenoriaeth isel, a rhoddwyd y rhain ar waith ar unwaith.

Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr adroddiad hwn yn rhoi lefel sicrwydd i'r Comisiynydd sy'n uchel ar y cyfan.

- Adroddiad yr Archwilwyr Mewnol ar gyfer 2012/13

Roedd yn dda gan y Pwyllgor nodi bod yr holl feysydd archwilio eleni wedi cael lefel lawn neu lefel sylweddol o sicrwydd. Adlewyrchwyd datganiad cyffredinol Deloitte ynglŷn â sicrwydd yn y Datganiad Llywodraethiant a gyhoeddwyd gyda Chyfrifon y Comisiynydd ar gyfer 2012-13.

### **Adroddiad Blynyddol yr Archwilwyr Mewnol ar gyfer 2013/14**

Ystyriodd y Pwyllgor hwn yn ei gyfarfod ar 29 Ebrill 2014 ac roedd yn dda ganddo weld casgliad Deloitte, sef “the Commissioner has a basically sound system of internal control, which should provide substantial assurance regarding the achievement of the Commissioner’s objectives”.

### **Adolygiad o berfformiad yr Archwilwyr Mewnol ar gyfer 2013/14**

Ystyriodd y Pwyllgor y dangosyddion perfformiad a ddarparwyd gan Deloitte gan ofyn am farn yr Archwilwyr Allanol a'r Uwch Dîm Rheoli. O ganlyniad i'r ystyriaethau hyn, daeth y Pwyllgor i'r casgliad ei fod yn fodlon iawn ar wasanaeth Deloitte.

## **B Cyfrifon Blynyddol ac Archwiliad Allanol**

### **Cyfrifon 2012-13**

Ystyriodd y Pwyllgor gyfrifon drafft y Comisiynydd ar gyfer 2012-13 ac roedd yn dda ganddo nodi eu bod wedi sicrhau barn ddiamod gan yr Archwilydd Cyffredinol ac wedi'u gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 2 Gorffennaf 2013.

### **Adroddiadau'r Archwilwyr Allanol**

Cafodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yr adroddiadau a ganlyn oddi wrth Swyddfa Archwilio Cymru (WAO):

- Adroddiad ar gyfrifon 2012-13 (ISA 260)

Dywedodd WAO nad oedd materion arwyddocaol i sôn amdanynt a bod Archwilydd Cyffredinol Cymru'n bwriadu rhoi adroddiad archwilio diamod ar ddatganiadau ariannol y Comisiynydd.

- Strategaeth ar gyfer 2013-14

Cododd y Pwyllgor nifer o bwyntiau i gael eglurhad ar y strategaeth archwilio allanol ar gyfer 2013-14 yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2014. Lluniodd

Swyddfa Archwilio Cymru strategaeth ddiwygiedig ar gyfer y cyfarfod ym mis Ebrill 2014 gan fynd i'r afael â'r materion hynny. Yn sgil trafodaeth ar y ffi archwilio, cytunodd WAO i ddarparu dadansoddiad o'r gost ar gyfer blynyddoedd y dyfodol

## **Adolygiad o'r Archwilwyr Allanol**

Bydd y Pwyllgor yn adolygu gwaith yr archwilwyr allanol yn yr hydref ar ôl i archwiliad cyfrifon 2013/14 gael ei gwblhau.

## **C Protocol Cydweithio wrth Archwilio – Archwilwyr Mewnol ac Allanol**

Trafododd y Pwyllgor y cyd-brotocol hwn yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf 2013 a doedd dim newidiadau i'w nodi.

## **Cynllun Dirprwyo**

Yn sgil ailstrwythuro sefydliad y Comisiynydd, nododd y Pwyllgor y newidiadau yn y Cynllun Dirprwyo yn ei gyfarfod ar 17 Ebrill 2013.

## **Rheoli Risg**

Rhoddodd yr uwch reolwyr ddiweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor am y prosesau a oedd ar gael ar gyfer rheoli risg yn y sefydliad.

Hefyd, cafodd y Pwyllgor adroddiadau ar nifer yr achosion o gwynion, damweiniau a digwyddiadau fel dangosyddion o sut roedd risg yn cael ei rheoli yn y sefydliad.

Yn ystod y flwyddyn, treuliodd y Pwyllgor gryn dipyn o amser yn ystyried ac yn trafod y gofrestr risg (gan gynnwys rhan o'u Diwrnod Datblygu a gynhaliwyd ar 7 Hydref 2013). O ganlyniad, mae'r fformat a'r cynnwys wedi'u diweddarau ac erbyn hyn fe allai gael ei dangos fel esiampl.

## **Polisiau**

Nododd y Pwyllgor y polisiau a ganlyn ar ôl cael eu hadolygiad blynyddol:

- a) Codi Pryderon
- b) Rheoli Risg
- c) Atal Twyll
- d) Archebu nwyddau a gwasanaethau
- e) Teithio a chynhaliaeth

f) Polisi POVA.

## **Dysgu a Datblygu**

Yn ystod y flwyddyn, manteisiodd aelodau'r Pwyllgor ar y cyfle i ymgymryd â'r gwaith dysgu a datblygu mewnol a ganlyn:

- Cyflwyniad a thrafodaeth ar waith rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru
- Cyflwyniad a thrafodaeth ar waith y rhaglen Codi Pryderon
- Cafwyd dau ddiwrnod datblygu ym mis Hydref 2013 a mis Mawrth 2014 a fu'n gyfle i bob aelod ymwneud yn fanylach â gwaith y Comisiynydd, gan gynnwys:
  - yr Adolygiad Gofal Preswyl
  - Cynllun Busnes 2013/14
  - cyllidebau'r dangosfwrdd a'r rhaglenni
  - rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru
  - gwaith yn sgil argymhellion Adroddiad yr Archwilwyr Mewnol – Llywodraethiant Corfforaethol a Rheoli Risg

Gwahoddwyd y Cadeirydd i'r ddau gyfarfod o 'Gadeiryddion Pwyllgorau Archwilio' y cyrff sy'n cael eu noddi gan Lywodraeth Cymru a gynhaliwyd yn ystod 2013/14. Aeth Kenneth Jones i'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Ebrill 2013 ar ran y Cadeirydd ac aeth Gordon Lishman, y Cadeirydd, i'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Tachwedd 2013.

## **Adolygiad o effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg**

Yn dilyn diwrnod datblygu ar 17 Mawrth 2014, cytunodd y Pwyllgor ar y fethodoleg ar gyfer yr adolygiad blynyddol o'i effeithiolrwydd. Cynhaliwyd yr adolygiad hwn yn ystod y cyfarfod ar 29 Ebrill 2014.

O ganlyniad i'r adolygiad, cytunodd y Pwyllgor:

- i ail-fformadu agendâu ei gyfarfodydd i nodi'n glir a yw'r eitemau yn eitemau i benderfynu arnynt, eitemau i'w trafod neu eitemau er gwybodaeth
- o ran egwyddor, y dylai un o'i ddiwrnodau datblygu gael ei gynnal y tu allan i Gaerdydd cyhyd ag y gallai'r Comisiynydd gysylltu hyn ag ymweliad ymgysylltu, gan sicrhau na fyddai'r amser a gâi ei dreulio i drefnu hyn yn anghymesur o'i gymharu â'r manteision.

Ar sail trafodaethau'r Pwyllgor ei hun a safbwyntiau'r Comisiynydd, yr uwch reolwyr a'r archwilwyr mewnol ac allanol, daeth y Pwyllgor i'r casgliad ei fod yn gweithredu'n effeithiol.

## **Gweithgareddau eraill**

Yn ystod y flwyddyn, rhoddodd yr Aelodau gyngor i'r Comisiynydd ac aelodau o'i thîm ar amryw o faterion yn ychwanegol at eu gwaith pwyllgor ffurfiol. Ym mhob achos cafodd hyn ei wneud yn unol â thelerau eu penodiad a'i ddatgan a'i gofnodi yn y modd priodol yng nghofnodion y Pwyllgor.

Yn ôl y gyfraith, mae'r Comisiynydd yn gorfforaeth undyn. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod diffyg bwrdd gweithredol (y byddai'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg fel arfer yn cael ei dynnu o'i blith) wedi creu "bwloch gwybodaeth" i'r Aelodau gan nad oes ganddyn nhw gyfrifoldebau a goruchwyliaeth ehangach. Mae'r Pwyllgor wedi datrys y bwloch hwn yn rhannol drwy eu gwaith cynghori ychwanegol a hefyd drwy drafodaethau ychwanegol a chyflwyniadau ychwanegol gan y Comisiynydd a'r staff uwch ar ben cyfarfodydd y Pwyllgor. Yn 2013-14, trefnwyd dau ddiwrnod datblygu ychwanegol i'r Pwyllgor ym mis Hydref a mis Mawrth gan roi cyfle i graffu'n fanwl ar waith y Comisiwn.

## **Diwedd glo**

O ganlyniad i'w waith yn 2013-14, mae'r Pwyllgor yn fodlon ar lefel gyffredinol yr ymdriniaeth o ran archwilio mewnol ac allanol. O ran trefniadau'r Comisiynydd ar gyfer rheolaeth ariannol, a'r prosesau ehangach ynglŷn â llywodraethiant corfforaethol ac adnabod a rheoli risg, mae'r Pwyllgor o'r farn, ar sail canfyddiadau'r archwilwyr ac arsylwadau'r Pwyllgor ei hun, y gall roi sicrwydd uchel i'r Comisiynydd fod y trefniadau sydd ar waith yn briodol a'u bod wedi bod yn gweithredu'n effeithiol. Mae'r farn hon yn bwydo drafft y Comisiynydd o Ddatganiad Llywodraethiant ar gyfer 2013/14 a ystyriwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn ei gyfarfod ym mis Ebrill 2013.

## **Cydnabod**

Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i Deloitte am eu gwaith wrth ymgymryd â threfniadau archwilio mewnol y Comisiynydd. Mae'r Pwyllgor hefyd yn ddiolchgar i Swyddfa Archwilio Cymru am ei gwaith ar y cyfrifon blyneddol.

Ni fyddai'r Pwyllgor yn gallu gweithredu'n effeithiol heb gymorth a chefnogaeth y Comisiynydd sydd hefyd yn Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer ei swyddfa. Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar iawn iddi, wrth gwrs, yn hyn o beth a hoffai ddiolch hefyd i'r holl staff sydd wedi cymryd yr amser i ymwneud â'r Pwyllgor a chefnogi ei waith. Hoffai'r Pwyllgor ddiolch yn benodol i Sue Hayward, am y cymorth ysgrifenyddol amhrisiadwy y mae wedi'i roi.

Yn olaf, hoffai'r Pwyllgor ddiolch i Gordon Lishman am ei wasanaeth i'r Comisiynydd. Ef oedd Cadeirydd cyntaf y Pwyllgor ar ôl i swyddfa'r Comisiynydd gael ei sefydlu a gwnaeth gyfraniad gwerthfawr at ei llywodraethiant cyffredinol yn ystod cyfnod hollbwysig.

**IAN SUMMERS**

**Cadeirydd**

**Ar ran y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg**

21 Mai 2014